

## Polisi Casgliadau'r Llyfrgell

Trosolwg.....	1
Nod ac Amcanion.....	2
Yr hyn rydym yn ei gasglu .....	2
Cwmpas.....	2
Fformat.....	3
Math o ddeunydd .....	3
Derbyn Deunydd y Llyfrgell .....	4
Gofalu am Gasgliadau a Mynediad.....	4
Dileu o'r casgliad.....	5
Polisiâu Cysylltiedig.....	5
Adolygu.....	5

### Trosolwg

Gwasanaeth archifau rhanbarthol yw Archifau Gwent, ac mae'n gweithio ar ran awdurdodau lleol Blaenau Gwent; Caerffili; Sir Fynwy; Casnewydd a Thorfaen. Mae'n casglu cofnodion sy'n ymwneud â'r ardal y mae'n ei gwasanaethu, yn eu diogelu ac yn sicrhau eu bod yn hygyrch.

Mae ein llyfrgell astudiaethau lleol yn ategu at y casgliad archifau ac at y gwaith o ddiogelu treftadaeth ddogfennol Gwent. Mae'n gwneud hynny trwy sicrhau y gall cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol gael mynediad at yr adnoddau wedi'u cyhoeddi sydd eu hangen arnynt i'w helpu i ddehongli ein cofnodion. Nod Archifau Gwent yw casglu adnoddau astudiaethau lleol sy'n cefnogi hyn a sicrhau eu bod ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â deunydd cyhoeddedig neu ddeunydd mewn print sydd heb gael ei gaffael trwy adneuo archifol.

## **Nod ac Amcanion**

Nod y polisi hwn yw amlinellu'r math o gynnwys y mae Archifau Gwent yn ei gasglu ar gyfer y llyfrgell astudiaethau lleol, a'i fformat, yn ogystal â'n sail ar gyfer caffael ar ddeunydd llyfrgell a'i ddileu. Yr amcanion yw:

- dangos ymrwymiad Archifau Gwent i ddatblygu casgliad astudiaethau lleol hygyrch
- amlinellu'r math o lyfrau; cylchgronau; cyfnodolion ac adnoddau electronig y bydd Archifau Gwent yn eu casglu
- amlygu dull Archifau Gwent o ddiogelu deunydd llyfrgell
- amlinellu sut y bydd Archifau Gwent yn gweinyddu'r gwaith o gasglu adnoddau llyfrgell newydd
- darparu fframwaith polisi gweithiol ar gyfer yr holl staff

## **Yr hyn rydym yn ei gasglu**

Bydd Archifau Gwent yn casglu deunydd astudiaethau lleol sy'n cefnogi'r casgliad archifau ac yn helpu i adrodd stori ein cymunedau, unigolion a sefydliadau a'u gweithgareddau.

## **Cwmpas**

Byddwn yn casglu deunydd sy'n cynnwys:

- Ardaloedd yr awdurdod lleol a wasanaethir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Cyngor Sir Fynwy; Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Cyngor Dinas Casnewydd a'r rhan honno o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n cynnwys hen Gyngor Bwrdeistref Islwyn
- Y plwyfi eglwysig o fewn Esgobaeth Mynwy a phlwyfi Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu sy'n dod o fewn Sir Fynwy fel ag y mae ar hyn o bryd a fel yr oedd.

Ni fyddem fel arfer yn derbyn deunydd sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol ehangach (Cymru, y DU) oni bai ein bod o'r farn fod y cynnwys (neu ran ohono) yn berthnasol iawn i'r ardal leol.

Gall deunydd ymwneud â:

- Busnes, diwydiant, sefydliadau milwrol, llywodraeth a chymunedol sydd, yn ystod eu holl fodolaeth, neu ryw ran o'u bodolaeth, wedi gweithredu o fewn yr ardal ddaearyddol

- Unigolion a anwyd yma, neu a dreuliodd gyfnod o'u bywyd yn byw, yn gweithio a/neu'n teithio yn yr ardal
- Sefydliadau crefyddol; grwpiau a chymdeithasau
- Hanes trafndiaeth
- Sefydliadau a mudiadau addysgol
- Llên gwerin leol; llenyddiaeth a barddoniaeth
- Digwyddiadau cyhoeddus wedi'u trefnu; gweithgareddau; dathliadau a gwyliau

## **Fformat**

Derbynnir eitemau llyfrgell mewn amrywiaeth o fformatau electronig a phrint gan gynnwys llyfrynau; cyfrolau printiedig; cryno ddisgiau; DVDs; adneuron digidol; cofau digidol bach; ffeiliau papur; a mapiau, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain

## **Math o ddeunydd**

Derbynnir eitemau yn Gymraeg, Saesneg neu Ladin a gallant gynnwys y canlynol:

- Adnoddau sy'n hwyluso mynediad i'n casgliadau archif, er enghraifft: geiriaduron; canllawiau palaeograffeg a chyfeiriaduron masnach
- Gweithiau prin, allan o brint neu anarferol am hanes lleol
- Cylchgronau; cyfnodolion; erthyglau neu fonograffau
- Adnoddau achau fel trawsgriadau o gofrestrau plwyf; adroddiadau cyfrifiad lleol a llenyddiaeth/chanllawiau a gynhyrchwyd gan gymdeithasau hanes teulu lleol; e.e. cylchlythyrau
- Mapiau a chynlluniau nad ydynt yn archifol
- Astudiaethau ac adroddiadau llywodraeth leol
- Pamffledi neu dywyslyfrau lleol
- Hanesion llafar
- Cofiannau personol/proffesiynol
- Llenyddiaeth broffesiynol (Archifau)
- Deunydd cyhoeddedig, a adneuwyd yn rhan o gasgliad archifau, sy'n rhydd o unrhyw anodiadau helaeth ac y gellir ei ddefnyddio fel adnodd ymchwilio

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a bydd Archifau Gwent yn ystyried derbyn eitemau llyfrgell sy'n dod o fewn cwmpas daearyddol ein polisi casgliadau. Rhaid i'r eitemau fod

- mewn cyflwr da,
- ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer gwaith ymchwil
- heb fod yn ein casgliadau yn barod
- o werth uchel o ran gwybodaeth
- yn eiddo i'r adnewr

## **Derbyn Deunydd Llyfrgell**

Mae Archifau Gwent yn derbyn eitemau llyfrgell

- sy'n cael eu rhoi neu gymynroddi i ni
- trwy brynu
- trwy danysgrifiad

Yn yr achos prin y cynigir casgliad mawr i ni, byddai ein gallu i'w dderbyn yn dibynnu a yw'r casgliad cyfan yn bodloni cwmpas y Polisi hwn ai peidio, ac a oes digon o le i'w storio a digon o adnoddau i'w gatalogio a'i ddiogelu.

Er mwyn cofnodi tarddiad y casgliad a sicrhau trosglwyddiad priodol, bydd holl adneuron y llyfrgell yn cael eu derbyn yn ffurfiol i'r casgliad a'r gwaith papur angenrheidiol yn cael ei lenwi gan yr Adnewr a staff Archifau Gwent.

## **Gofalu am Gasgliadau a Mynediad**

Bydd caffaeliadau'r llyfrgell yn amodol ar y canlynol:

- Bydd holl adnoddau'r llyfrgell yn cael eu catalogio'n electronig a sicrhau eu bod ar gael er mwyn i'r cyhoedd eu defnyddio ar y safle.
- Bydd eitemau digidol a adnewyd yn electronig yn cael eu trosglwyddo i ddechrau i gyfryngau storio caled fel cofau digidol mawr allanol, hyd nes ein bod ni mewn sefyllfa i gynnig storio digidol addas a mynediad at yr adnoddau hyn.
- Er mwyn sicrhau bod yr adnoddau gwerthfawr hyn ar gael bob amser i gefnogi ymchwil, bydd mynediad i holl adnoddau'r llyfrgell ar y safle ei hun (neu ar-lein os yn electronig) ac nid ydynt ar gael i'w benthyca.

## Dileu o'r casgliad

Bydd eitemau llyfrgell yn cael eu cadw yn y casgliad ar yr amod eu bod yn parhau i fodloni'n polisi casgliadau ac o werth i waith ymchwil. Bydd Archifau Gwent yn adolygu'r casgliad yn rheolaidd i sicrhau bod hyn yn wir, a bydd eitemau nad ydynt yn cwrdd â'r polisi casgliadau yn cael eu dileu. Gallai'r rhain gynnwys:

- Deunydd nad oes modd eu trwsio'n rhesymol
- Llawlyfrau, gwerslyfrau neu ganllawiau sy'n hen neu'n hen argraffiadau
- Eitemau sydd gennym yn barod
- Eitemau yr ydym yn caffael ar gopiâu ohonynt sydd mewn cyflwr gwell

Bydd y deunydd hwn yn cael ei waredu'n briodol a gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i gartref addas ar ei gyfer. Bydd eitemau sydd mewn cyflwr defnyddiadwy yn cael eu gwerthu; trosglwyddo i sefydliadau tebyg; neu eu rhoi i lyfrgelloedd lleol; amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol eraill cyn ystyried unrhyw fath arall o waredu. Fodd bynnag, gellir dinistrio adnoddau neu eu trosglwyddo i gyfleuster ailgylchu os na ystyrir eu bod o werth ar gyfer ymchwil mwyach.

## Polisiau Cysylltiedig

Dylid darllen Polisi Casgliadau'r Llyfrgell ar y cyd â'r [polisiau](#) canlynol :

- Polisi Mynediad
- Polisi Arfarnu
- Polisi Casgliadau Archifau
- Polisi Gofalu am Gasgliadau a Diogelu Casgliadau
- Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau
- Polisi Rheoli Casgliadau
- Polisi Cadwedigaeth Ddigidol

## Adolygu

Cymeradwywyd y polisi hwn gan Gyd-bwyllgor Archifau Gwent ym mis Mehefin 2021, a chafodd ei adolygu a'i gymeradwyo ym mis Mehefin 2024. Bydd yn cael ei adolygu ym mis Mai 2027 neu ynghynt os bydd yr amgylchiadau'n pennu hynny.